3YDD O ORFFENNAF

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol

## Wythnos yma



### Mabolgampau

Cawsom fore hyfryd ddoe ar y cae gyda Blwyddyn 3 a 4, a hoffem ddiolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth a'ch brwdfrydedd yn ystod y mabolgampau.

Roedd y cystadlu'n frwd, pawb yn rhoi o'u gorau, a'r awyrgylch yn un o wir fwynhad i bawb. Llongyfarchiadau mawr i'n pencampwyr Blwyddyn 3 a 4 am ddangos dyfalbarhad, ymdrech wych a chwarae teg drwy gydol y bore. Llongyfarchiadau hefyd i'r gymuned fuddugol, sef Pwyll,,am berfformiad arbennig!
Diolch o galon i'r staff am eu holl waith yn trefnu'r mabolgampau ac am sicrhau profiad cadarnhaol i'n disgyblion.

Edrychwn ymlaen at barhau â'r hwyl yr wythnos nesaf. Bydd Mabolgampau'r Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn Ysgol Treganna ar y 7fed o Orffennaf.  Bydd Mabolgampau Blwyddyn 5 a 6 yn Stadiwm Leckwith ar y 10fed o Orffennaf.

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yno ac at ragor o gystadlu brwdfrydig gan ein disgyblion!

## Calendr

**Mabolgampau Derbyn, Bl 1 a Bl 2 Ysgol Treganna Gorffennaf y 7fed**

**Mabolgampau Bl 5 a 6 Stadiwm Leckwith Gorffennaf y 10fed**

# Tregwyl

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth nos Wener ddiwethaf yn Nhregwyl. Roedd yn brynhawn a noson arbennig, gyda'r haul yn gwenu'n hyfryd dros iard yr ysgol ac yn creu awyrgylch bendigedig i'r gymuned gyfan.

Diolch o galon i'r bandiau a'r artistiaid a berfformiodd mor wych, Naw, Bollt, Penbleth, Al Lewis a Dadleoli ac am gyfrannu at noson o gerddoriaeth fyw ac atgofion arbennig.

Diolch hefyd i'r staff a'r disgyblion a fu'n trefnu ac yn rhedeg y stondinau; roedd eu hymroddiad yn allweddol i lwyddiant y digwyddiad.

Diolch enfawr i'r GRhA a'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled wrth drefnu'r noson. Gwnaethpwyd elw anhygoel, a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi addysgu a dysgu yn yr ysgol dros y flwyddyn nesaf.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r GRhA am drefnu cymaint o weithgareddau gwahanol eleni.




Rydym yn gwerthfawrogi eu holl waith caled ac yn edrych ymlaen at gydweithio eto gyda nhw'r flwyddyn nesaf.

## Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni

Rydym yn falch o allu cyflwyno Adroddiad y Llywodraethwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024–2025 sydd wedi ei uwchlwytho i'n gwefan.

Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg clir o waith y corff llywodraethu dros y flwyddyn, gan adlewyrchu eu hymrwymiad parhaus i gefnogi datblygiad ac arweiniad strategol yr ysgol.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'n llywodraethwyr, ac yn arbennig i'n cadeirydd, Manon George, am eu holl gefnogaeth, eu hymroddiad a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Mae eu cyfraniad yn rhan hanfodol o sicrhau bod Ysgol Treganna yn ffynnu ac yn darparu profiad addysgol o'r safon uchaf i'n disgyblion.

## Diweddariad o'r gegin

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb am eich amynedd gyda'r trefniadau cinio ysgol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fel y gwyddoch, mae offer hanfodol yn y gegin angen trwsio, ac mae'r Cyngor yn gyfrifol am ariannu ac ymgymryd â'r gwaith hwn.

Rydym wedi bod yn aros am ymweliad pellach gan y Cyngor i asesu'r sefyllfa, ac fe ddaeth cynrychiolydd i'r ysgol ddydd Mercher. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd y trwsio angenrheidiol yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r haf.

Rydym yn deall bod y sefyllfa wedi bod yn rhwystredig i lawer ohonoch, ac fel ysgol rydym yn rhannu'r un rhwystredigaeth. Diolch o galon i chi am eich cydweithrediad a'ch dealltwriaeth.

O ganlyniad i'r tywydd poeth sydd wedi'i ragweld ar gyfer yr wythnos nesaf, mae bwydlenni pob ysgol yng Nghaerdydd yn cael eu haddasu dros yr wythnosau nesaf.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Ym mlwyddyn…hoffwn i…

**Her**

Oherwydd…

**Testun Trafod yr wythnos**

Beth hoffech chi newid am wisg ysgol Treganna?

**Cân yr wythnos**

Malan- Dau funud

**Idiom yr wythnos**

Siarad fel melin bupur